


# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bagloriaeth Cymru

## Canllaw i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
Modiwl: Cymru, Ewrop a'r Byd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, sy’n deddfu ar eu cyfer ac sy’n dwyn llywodraeth Cymru i gyfrif.

# Beth yw datganoli?

Datganoli yw'r broses o drosglwyddo pwerau o'r llywodraeth ganolog i unedau lleol.

Flynyddoedd yn ôl, roedd yr holl benderfyniadau sy'n effeithio ar y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn Llundain gan Aelodau Seneddol a eisteddai yn Senedd y Deyrnas Unedig. Ond yn niwedd y 1990au, bu tro ar fyd wrth i sefydliadau gwleidyddol newydd gael eu creu yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru (ac yn Llundain Fwyaf yn y flwyddyn 2000).

Northern Ireland Assembly




– **Belfast**
– 108 Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol

The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba



– **Caeredin**
– 129 Aelod o Senedd yr Alban



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



– **Caerdydd**
– 60 Aelod Cynulliad

LONDONASSEMBLY



– **Llundain**
– 25 Aelod Cynulliad

**Cofiwch – gan Senedd y DU y mae'r pŵer absoliwt o hyd, gan gynnwys y pŵer i gael gwared ar ddatganoli!**

## Datganoli yng Nghymru

### 1979

Cynhaliwyd y Refferendwm cyntaf ym 1979, ond gwrthododd pobl Cymru y cynlluniau ar gyfer datganoli o bedwar i un.

**DIM OND 58.8% O'R ETHOLWYR A BLEIDLEISIODD!**

### 1997

Cynhaliwyd ail Refferendwm ym mis Medi 1997:

**DIM OND 50.1% O'R ETHOLWYR A BLEIDLEISIODD!**

| | |
|---|---|
| **Ie** | **50.3% (mwyafrif o 6712 pleidlais)** |
| **Na** | **49.7%** |

Sir Gaerfyrddin oedd yr awdurdod unedol olaf i ddatgan y pleidleisiau yn ei hardal, gan droi'r fantol o blaid sefydlu corff wedi'i ethol yn ddemocrataidd ar gyfer Cymru. Roedd hyn yn gofyn am basio Deddf Seneddol.

## Deddf Llywodraeth Cymru 1998

* creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru
* gwneud darpariaethau ar gyfer etholiadau y flwyddyn ganlynol
* trosglwyddo rhan fwyaf o bwerau Ysgrifennydd Gwladol Cymru

### 4 Mai 1999

Etholiadau cyntaf y Cynulliad

### 12 Mai 1999

Cyfarfod cyntaf y Cynulliad

### Gweithgareddau posibl

01. Defnyddiwch y rhyngrwyd i ganfod sut y pleidleisiodd gwahanol rannau o Gymru ym 1979 a 1997. Dangoswch eich casgliadau ar ffurf graffiau a rhowch sylwadau am unrhyw batrymau / tebygrwydd / gwahaniaethau sy'n ddiddorol i chi.

02. Mae difaterwch ymhlith pleidleiswyr yn dal yn broblem, yn enwedig ymhlith pobl ifanc 18-25 oed. Fel grŵp, lluniwch a dosbarthwch arolwg i ganfod pam nad yw pobl ifanc yn defnyddio'u pleidleisiau, a beth y gellir ei wneud i wella pethau. Gallwch gyflwyno'ch casgliadau naill ai ar bapur, drwy dablau a graffiau, neu fel cyflwyniad aml-gyfrwng i weddill eich grŵp.



- deddfu ar gyfer Cymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli
- pleidleisio ar y gyllideb
- craffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Y pwerau sydd wedi'u datganoli

Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud penderfyniadau a deddfu yn y meysydd a ganlyn:

---

Maes 01: Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig
Maes 02: Henebion ac adeiladau hanesyddol
Maes 03: Diwylliant
Maes 04: Datblygu economaidd
Maes 05: Addysg a hyfforddiant
Maes 06: Yr amgylchedd
Maes 07: Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân
Maes 08: Bwyd
Maes 09: Iechyd a gwasanaethau iechyd
Maes 10: Priffyrdd a thrafnidiaeth
Maes 11: Tai
Maes 12: Llywodraeth leol
Maes 13: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Maes 14: Gweinyddiaeth gyhoeddus
Maes 15: Lles cymdeithasol
Maes 16: Chwaraeon a hamdden
Maes 17: Twristiaeth
Maes 18: Cynllunio gwlad a thref
Maes 19: Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
Maes 20: Y Gymraeg

---




### Gweithgareddau posibl

01. Ewch ati i greu eich maniffesto eich hun, gan gynnwys addewidion ar gyfer yr etholaeth yn meysydd sydd wedi'u datganoli (gallwch wneud hynny ar gyfer pob maes neu ddim ond rai ohonynt). Gallwch gyflwyno eich maniffesto fel poster neu bamffled deniadol, neu fel araith i weddill y dosbarth. Gellir dilyn hyn gydag etholiad yn y dosbarth, lle bydd cyfle i bawb bleidleisio dros eu hoff faniffesto .

02. Defnyddiwch y rhyngrwyd i ymchwilio ac i gymharu polisïau'r pedair prif blaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhai o'r meysydd sydd wedi'u datganoli. Dangoswch eich casgliadau ar ffurf tabl. Pa bleidiau

## Pwerau heb eu datganoli

Gan Senedd y DU y mae'r rheolaeth dros y canlyr




– Materion cyfansoddiadol y DU
– Amddiffyn
– Polisi tramor
– Polisïau economaidd, cyllidol ac ariannol
– Cyfraith a rheoleiddio corfforaethol
– Deddfwriaeth cyflogaeth a chydraddoldeb
– Nawdd cymdeithasol
– Diogelwch a rheoleiddio trafnidiaeth
– Diogelwch niwclear
– Ffilm, fideo a darlledu
– Yr Arolwg Ordnans
– Dynodi ardaloedd a gynorthwyir
– Y Loteri Cenedlaethol
– Erthylu, ffrwythloni dynol ac embryoleg
– Rheoli a diogelwch meddyginiaethau
– Bywddyraniad

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru?

Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru eu gwahanu'n ffurfiol ar 3 Mai 2007 yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Llywodraeth Cymru** sy'n cynnig y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth newydd ac mae'n gyfrifol am adrannau'r Llywodraeth ac am wariant. Mae'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol (prif gynghorwr cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n goruchwylio'r broses o gymeradwyo a chreu cyfreithiau) a Dirprwy Weinidogion Cymru.
Y nifer fwyaf y gellir ei gael yn Llywodraeth Cymru yw 14, gan gynnwys y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru** yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae gan y Cynulliad 60 o Aelodau.



## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Yn ogystal â gwahanu Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn sefydlu dull a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i geisio am fwy o bwerau i wneud ei gyfreithiau ei hun, a hynny fesul pob achos unigol.

## Sut y caiff deddfwriaeth newydd ei phasio

Gellir gwneud deddfwriaeth newydd yng Nghymru drwy **Fesurau Cynulliad**. Ers Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae modd i'r Cynulliad basio Mesurau ar unrhyw fater os oes ganddo **Gymhwysedd Deddfwriaethol** yn y maes.

Caiff yr holl faterion lle mae gan y Cynulliad Gymhwysedd Deddfwriaethol ynddynt eu rhestru o dan Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**MAES** = Pwnc eang (er enghraifft, Priffyrdd a Thrafnidiaeth)
**MATER** = Rhan o bolisi a ddiffinnir yn benodol o fewn maes

Os bydd y Cynulliad yn dymuno deddfu ar fater newydd, rhaid pasio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) i ddechrau. Math o is-ddeddfwriaeth yw'r Gorchmynion hyn sy'n trosglwyddo'r pwerau perthnasol o Senedd y DU i'r Cynulliad. Rhaid i'r Gorchmynion gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, dau dŷ'r Senedd yn Llundain a'r Frenhines. .



**= Cymhwysedd Deddfwriaethol**

Gall Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau Cynulliad gael eu cynnig naill ai gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, pwyllgorau'r Cynulliad neu Aelod Cynulliad unigol (ar ôl i'w henw gael ei dynnu mewn balot). Caiff Comisiwn y Cynulliad gyflwyno Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn. Mae'n gyfrifoldeb ar Aelodau'r Cynulliad hefyd i graffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig a phleidleisio arni.

**Y gyfraith gyntaf i gael ei phasio yng Nghymru ers dyddiau Hywel Dda oedd y Mesur ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG, a hynny ar 6 Mai 2008. Ei ddiben yw ei gwneud yn haws i gleifion gael iawndal neu driniaeth a chymorth os aiff pethau o'i le wrth iddynt gael gofal gan y GIG.**



Cymeradwywyd Arfbais Brenhinol newydd ar gyfer Cymru ym mis Mai 2008. Mae wedi'i seilio ar arfbais Llywelyn Fawr, y tywysog Cymreig enwog yn y drydedd ganrif ar ddeg. Mae'r arfbais newydd yn ymddangos ar gloriau Mesurau Cynulliad a gaiff eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Gweithgareddau posibl

01. Ewch i'r adran Busnes yn www.cynulliadcymru.org ac i'r Hysbysiad Busnes, lle ceir manylion y Cyfarfodydd Llawn a'r cyfarfodydd pwyllgorau sydd i'w cynnal. Defnyddiwch y tudalennau hyn, ynghyd â'r wybodaeth a geir yn y llyfryn hwn, i ysgrifennu dyddiadur Aelod Cynulliad. Efallai y bydd angen ymchwilio i'r pynciau sydd i gael eu trafod, fel y gallwch roi barn amdanynt yn eich dyddiadur.


02. Lluniwch daflen wybodaeth am y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Pwy yw'r aelodau? Beth yw diben y Pwyllgor? Beth y bu'r Pwyllgor hwn yn ei drafod yn ddiweddar? Pa bethau y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt yn eich barn CHI?

## Patrwm ethol y Cynulliad

**Etholaethau a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad**

Mae 60 o Aelodau Cynulliad i gyd, yn cynrychioli 40 etholaeth a 5 rhanbarth.

Yn 2003, roedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cydbwysedd delfrydol rhwng y rhywiau o 30 gwryw a 30 menyw yn Aelodau Cynulliad - y tro cyntaf i hynny ddigwydd yn y byd!





Cynhelir etholiadau'r Cynulliad bob pedair blynedd.

Caiff yr **Aelodau Rhanbarthol** eu hethol drwy System Aelodau Ychwanegol, lle caiff cyfanswm nifer y pleidleisiau a enillwyd gan y blaid yn y bleidlais ranbarthol (V) ei rhannu â nifer y seddi sydd gan y blaid eisoes (s), ar ôl ychwanegu un.

Mae Fformwla d'Hondt (a welir ar y dde) yn ffurf ar gynrychiolaeth gyfrannol a ddefnyddir mewn nifer o wledydd eraill, gan gynnwys Awstria, Israel, yr Eidal, Siapan, yr Alban a Sbaen.

$$\frac{V}{s+1}$$

Caiff yr **Aelodau Etholaeth** eu hethol ar sail system y 'cyntaf i'r felin'.

## Map etholaethau 2007


Llafur (26)

Plaid Cymru (14)

Y Ceidwadwyr Cymreig (13)

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (6)

Annibynnol (1)



**Aelodau'r Cabinet a'u cyfrifoldebau**

Ewch i **www.cynulliadcymru.org** i'ch helpu i lenwi'r wybodaeth isod:



Prif Weinidog Cymru

Carwyn Jones AC



Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai

________________



Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

________________



Y Gweinidog dros Ddiwylliant a

________________

________________



Cwnsler Cyffredinol ac

________________

________________

John Griffiths AC



Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros

________________

a ________________



Y Gweinidog dros Fusnes a

________________

Jane Hutt AC



Y Gweinidog dros

________________

Edwina Hart MBE AM



Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes

________________



Y Gweinidog dros Faterion Gwledig

________________

## Gweithgareddau posibl

01. Lluniwch siart cylch yn dangos patrwm yr aelodau sydd wedi'u hethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd. Dewiswch un blaid wleidyddol neu fwy a chymharu canlyniadau diweddaraf y blaid gydag etholiadau yn y gorffennol. A fu unrhyw newid ym mhoblogrwydd y blaid? A yw hyn wedi cael ei adlewyrchu mewn etholiadau cyngor, etholiadau cyffredinol neu etholiadau Ewrop? Rhowch eich rhesymau dros hyn.

02. Ewch i www.cymru.gov.uk i ymchwilio i Gytundeb Cymru'n Un (cliciwch ar "Amdanom ni" ac yna edrychwch o dan "Strategaeth"). Ysgrifennwch erthygl gylchgrawn ar gyfer pobl ifanc, yn egluro:

a) Beth yw'r cytundeb
b) Sut a pham y cafodd ei greu
c) Crynodeb byr o'r telerau
d) Eich barn am ba mor llwyddiannus y bu ac am ei effaith hyd yma ar fywyd yng Nghymru.

Ceisiwch gynnwys lluniau a diagramau i gyd-fynd â'ch pwyntiau.

## Beth yw gwaith Aelod Cynulliad?

– Cynrychioli eu plaid
– Cynrychioli eu holl gymuned
– Cynnal cymorthfeydd a chyfarfod ag etholwyr
– Ysgrifennu llythyrau, negeseuon e-bost ac ati.
– Ystyried materion lleol a chenedlaethol
– Cyfrannu yn y Cyfarfodydd Llawn
– Pwyso a mesur manteision ac anfanteision
– Cynnig Mesurau
– Pleidleisio ar Fesurau
– Gweithio mewn pwyllgorau
– Craffu

## Y Cyfarfod Llawn

Cynhelir Cyfarfodydd Llawn bob prynhawn dydd Mawrth a dydd Mercher yn y Siambr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog a Gweinidogion eraill y Cynulliad am y gwaith y maent yn ei wneud.

## Y Llywydd

Caiff y cyfarfodydd eu cadeirio gan y Llywydd, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, sydd wedi bod yn y swydd ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999.

Mae ei swydd yn debyg i swydd y Llefarydd yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn ogystal â chadw trefn yn y Cyfarfod Llawn ac amddiffyn hawliau Aelodau'r Cynulliad, mae hefyd yn cynrychioli'r Cynulliad mewn nifer o ddigwyddiadau ac yn cynnal derbyniadau i ymwelwyr yn y Senedd, gan gynnwys ymwelwyr Brenhinol, aelodau etholedig o seneddau eraill a chynrychiolwyr tramor.

Mae gan Aelodau'r Cynulliad y pŵer i gyflwyno cynnig ar gyfer dadl fer sydd i'w chynnal ar ddiwedd sesiwn, neu i gynnig bod y Cynulliad yn trafod mater brys sydd o bwys i'r cyhoedd ar unwaith.

## Y pwyllgorau

Grwpiau bychain o Aelodau'r Cynulliad yw'r pwyllgorau sy'n edrych ar faterion penodol yn fanylach. Cyn gwneud penderfyniadau, byddant yn aml yn gofyn am wybodaeth gan gynghorwyr arbenigol allanol ac aelodau o'r gymuned.

Gellir gweld rhestr o'r holl bwyllgorau ynghyd â gwybodaeth am eu haelodau, newyddion, dyddiadau'r cyfarfodydd, agendâu, trawsgrifiadau ac adroddiadau yn:

**http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees.htm**



## Cadw golwg ar ddatblygiadau

Mae croeso i'r cyhoedd eistedd yn yr Oriel Gyhoeddus yn ystod y Cyfarfod Llawn ac yng nghyfarfodydd y pwyllgorau.

Mae 35 awr o drafodion y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn ar gael i'w gweld bob wythnos ar www.senedd.tv




Caiff trawsgrifiadau o drafodion y Cyfarfod Llawn eu cyhoeddi o fewn 24 awr i ddiwedd pob cyfarfod. Gellir gweld crynodeb o'r busnes a gynhaliwyd ym mhob cyfarfod yn adran y Pleidleisiau a Thrafodion ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, a hynny o fewn 30 munud i ddiwedd pob cyfarfod.

### Gweithgareddau posibl

01. Edrychwch ar y penawdau newyddion diweddaraf a'r materion sydd o bwys yng Nghymru, ac yna lluniwch restr o gwestiynau y byddech yn hoffi eu gofyn i'r Prif Weinidog a'r Cabinet pe byddech chi'n Aelod Cynulliad.

02. Dewiswch un o'r pwyllgorau a defnyddiwch wefan y Cynulliad i gynllunio poster ar steil poster ffilm, a hwnnw'n dangos yr aelodau, yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, a'r hyn sydd ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

03. Gwyliwch www.senedd.tv ac yna ysgrifennwch adroddiad papur newydd byr, yn sôn am yr hyn a drafodwyd a'r hyn a benderfynwyd arno yn ystod y cyfarfod penodol hwnnw, ac unrhyw oblygiadau posibl i Gymru.

04. Lluniwch adroddiad ar rai o'r problemau yn eich ardal chi. Defnyddiwch ffotograffau, cyflwyniadau PowerPoint, neu gasgliadau eich arolygon eich hun i gryfhau'ch dadl. Gwahoddwch Aelod Cynulliad neu gynrychiolydd lleol arall i'ch ysgol a chyflwynwch eich adroddiad iddynt

## Beth mae'r Cynulliad wedi'i wneud dros Gymru?

Mae datganoli wedi golygu bod Gweinidogion yng Nghymru wedi gallu mabwysiadu polisïau a chynlluniau unigryw ar gyfer Cymru, ynghyd â chymryd camau cyflym a phendant mewn achosion o argyfwng.
Dros ddeng mlynedd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno mentrau 'gwnaed yng Nghymru' sy'n helpu i wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

– **Presgripsiynau am ddim**
– **Brecwastau am ddim mewn ysgolion**
– **Nofio am ddim**
– **Teithio am ddim ar fysus i bobl anabl a phobl dros 60 oed**
– **Cwricwlwm 'dysgu drwy chwarae' y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 oed.**

At hynny, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant a hefyd Comisiynydd Pobl Hŷn.

Yn 2006, creodd Deddf Llywodraeth Cymru hyd yn oed fwy o gyfleoedd i Gymru. O fewn dwy flynedd, roedd Cymru eisoes wedi cael pwerau newydd i roi sylw i addysg anghenion arbennig, plant sy'n agored i niwed a lles gofalwyr.

### Gweithgaredd posibl

01. Ymchwiliwch i gasgliadau ac argymhellion Comisiwn Richard dros y blynyddoedd. Faint o'r rhain a ddaeth yn realiti eisoes? A oes rhwystrau yn ffordd y rheini sy'n weddill? Sut y bydd Cymru'n cael ei llywodraethu yn y dyfodol, a pha fath o bolisïau a gaiff eu hyrwyddo? Lluniwch ganllaw i ymwelwyr, yn disgrifio Cymru yn y flwyddyn 2020. Ewch ati i ddarogan ar sail y polisïau sydd eisoes wedi'u cyflwyno a'r polisïau sydd ar y gweill ar gyfer y dyfodol.

## Cysylltwch â'ch Aelod Cynulliad!

Ewch i **www.cynulliadcymru.org** a theipiwch eich cod post i weld rhestr o Aelodau'r Cynulliad yn eich ardal a'u manylion cyswllt.

## Cyflwyno deiseb

Mae deiseb yn ffordd o ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried unrhyw fater, problem neu gynnig os oes ganddo bŵer i wneud rhywbeth ynghylch hynny. Mae'n rhaid i'r Cynulliad ystyried unrhyw ddeiseb os bydd y Llywydd yn penderfynu bod modd derbyn honno.

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn bodoli er mwyn ystyried deisebau a phenderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

Gellir cyflwyno deisebau naill ai drwy lenwi'r ffurflenni ar-lein yn **http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions.htm**

neu drwy eu postio i'r cyfeiriad hwn:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Os byddwch yn defnyddio'ch templed eich hun ar gyfer deiseb, yn hytrach na'r rhai sydd eisoes ar gael i'w lawrlwytho, mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno'r ddeiseb cyn casglu llofnodion. Mae hyn yn golygu bod modd i'r Cynulliad fwrw golwg i gadarnhau bod geiriad y ddeiseb yn ddilys – mae'n anodd iawn newid hyn unwaith y byddwch wedi dechrau casglu llofnodion!

## Lincs defnyddiol ar y we—

**Sefydliadau gwleidyddol—**
http://www.assemblywales.org.uk
http://www.scottish.parliament.uk
http://www.parliament.uk/
http://www.niassembly.gov.uk
http://www.europarl.org.uk/

**Cyfrannu—**
Online Form for Finding and Contacting Representatives
http://www.writetothem.com/National Assembly for Wales Petitions
http://www.assemblywales.org/gethome/e-petitions.htm
National Assembly for Wales Discussion Forum
http://www.assemblywales.org/gethome/haveyoursay.htm

**Pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru—**
**Plaid Cymru**
http://www.plaidcymru.org/
**Welsh Conservative Party**
http://www.conservatives.com/Where_you_live/Wales.aspx
**Welsh Labour Party**
http://www.welshlabour.org.uk/
**Welsh Liberal Democrats**
http://welshlibdems.org.uk/

**Cynaliadwyedd yn y Senedd—**
http://www.assemblywales.org/sen-home/sen-environmental-features.htm

**Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown—**
http://www.bhac.org/info.html

**Gwefannau defnyddiol eraill—**
http://www.funkydragon.org
http://www.tomorrow-wales.co.uk/
http://www.sustainwales.com/home/en/
http://www.aboutmyvote.co.uk/
http://www.theyworkforyou.com
http://www.thesprout.co.uk
http://www.headsup.org.uk/content/
http://www.ukyouthparliament.org.uk/

